Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Feithrin a Theuluol Maldwyn
**Lôn y Parc**
**Y Drenewydd**
**Powys**
**SY16 1DE**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chanolfan Feithrin a Theuluol Maldwyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Canolfan Feithrin a Theuluol Maldwyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Dd/b |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Alicia Pelling |
| Person â gofal | Alicia Pelling |
| Nifer y lleoedd | 70 |
| Amrediad oedran y plant | 0-12 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 14 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 24 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7:45am i 5.45pm, dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nac ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 05/12/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/05/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/10/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Mae darpariaeth gofal y tu allan i'r ysgol yn y lleoliad o dan yr un cofrestriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer plant hyd at 12 oed.

Mae ychydig o blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella datblygiad mathemategol plant

A2 Gwella holi gan ymarferwyr a chyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau meddwl

A3 Darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddysgu am eu diwylliannau eu hunain, a diwylliannau eraill

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda wrth iddynt sgwrsio ag ymarferwyr. Gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt gyda hyder datblygol. Er enghraifft, mae plentyn iau yn ystafell y 'Tweenies' yn penderfynu peidio â chwarae y tu allan, ac yn lle hynny, mae'n dewis darllen ei hoff lyfr yn y gornel gysurus. Mae plant yn y clwb y tu allan i'r ysgol yn cyfrannu eu syniadau ar sut i fynd ati i archwilio'r thema bresennol, sef yr hydref. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu safbwyntiau a'u sylwadau'n hyderus.

O ganlyniad i arferion dyddiol effeithiol ac amgylchedd cefnogol ar draws y lleoliad, mae bron pob un o'r plant iau yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni neu'u gofalwyr. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn anesmwytho, mae'n ymateb yn dda i gysur gan ymarferwyr. Mae bron pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ymarferwyr yn gwrando arnynt; mae hyn yn arwain at berthnasoedd cadarnhaol rhwng plant ac ymarferwyr. Er enghraifft, mae plant hŷn sydd wedi blino ar ôl yr ysgol yn ymateb yn dda i ymdrechion ymarferwyr i'w cynnwys mewn gweithgareddau, ac mae hyn yn codi eu hysbryd.

Mae rhyngweithio rhwng plant ac ymarferwyr yn gyson dda, ac mae plant yn cydweithredu'n dda. Mae plant iau yn mwynhau adegau prydau bwyd, sy'n achlysuron cymdeithasol, ac maent yn siarad â'u ffrindiau a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt â brwdfrydedd. Maent yn gwrtais ac yn defnyddio moesau da yn gyson. Mae plant yn y clwb y tu allan i'r ysgol yn rhyngweithio â'u ffrindiau yn gadarnhaol. Maent yn rhannu adnoddau ac yn cymryd eu tro'n dda, er enghraifft wrth chwarae gêm fwrdd.

Mae bron pob un o'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn llwyddiannus, ac maent yn mwynhau chwarae a dysgu. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau creu draenog o does chwarae ag arogl siocled ac yn gwneud sylwadau am ei arogl wrth iddynt osod darnau o sbageti i greu ei gefn pigog. Yn ystod amseroedd chwarae yn yr awyr agored, mae plant yn datblygu eu cydgysylltiad rhwng eu llaw a'u llygad yn dda wrth iddynt guro pegiau i mewn i bwmpen gan ddefnyddio morthwyl bach pren. Mae plant hŷn yn dechrau eu chwarae eu hunain yn llwyddiannus ac yn canolbwyntio am gyfnod addas. Er enghraifft wrth archwilio arddangosfa'r hydref, mae plant yn y clwb y tu allan i'r ysgol yn dangos chwilfrydedd am weadau'r deunyddiau naturiol ac yn cymryd amser i edrych, dal ac ystyried yr eitemau amrywiol â diddordeb.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu annibyniaeth a medrau hunangymorth yn dda. Er enghraifft, mae plant iau yn helpu eu hunain i ffrwythau, ac yn arllwys eu diodydd eu hunain amser byrbryd. Maent yn golchi eu dwylo â chymorth cyfyngedig ac yn rhoi eu sbwriel yn y bin. Cyn iddynt chwarae yn yr awyr agored, mae llawer o blant yn gwisgo eu hesgidiau glaw a'u cotiau ag ychydig bach o gymorth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau drostynt eu hunain ar eu cyflymdra eu hunain. Er enghraifft, mae plant hŷn yn rhoi menyn ar eu crempogau yn annibynnol ac yn defnyddio gris i gyrraedd y sinc i olchi eu platiau eu hunain.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant cyn-ysgol yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau dros gyfnod. Dangosant fedrau gwrando effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau ymarferwyr yn ofalus wrth iddynt ddisgrifio'r gweithgareddau ar gyfer y bore. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain ag eglurder a hyder priodol. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r modd yr oeddent yn mwynhau cerdded trwy'r dref y diwrnod blaenorol i gasglu concyrs. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos brwdfrydedd am lyfrau a storïau. Dangosant fwynhad wrth wrando ac ymateb i stori sy'n cael ei darllen gan yr ymarferwr arweiniol. Maent yn codi llyfrau ac yn eu harchwilio yn annibynnol ac yn dangos dealltwriaeth o'u cynnwys wrth eu rhannu ag oedolyn. Dangosant fedrau creu marciau addas ac mae ychydig ohonynt yn dechrau gwneud y cysylltiad â chyfathrebu ysgrifenedig wrth ysgrifennu nodiadau mewn llyfrau nodiadau yn yr ardal creu marciau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu dealltwriaeth o fedrau rhif a chyfrif yn briodol. Er enghraifft, wrth ddilyn helfa ar gyfer pum pwmpen guddiedig o gwmpas ardal y goedwig, mae llawer ohonynt yn ymuno yn hyderus wrth gyfrif faint ohonynt y maent wedi eu casglu. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid ydynt yn datblygu eu dealltwriaeth o ystod lawn o gysyniadau mathemategol, gan gynnwys siâp a mesur, yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn rheolaidd ac yn dda fel rhan o'u chwarae. Er enghraifft, defnyddiant ddyfais llaw i greu a lliwio lluniau syml a chreu cyfres o gyfarwyddiadau syml i symud tegan rhaglenadwy.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu amrywiaeth o fedrau corfforol yn dda trwy wneud defnydd rheolaidd o'r ardaloedd awyr agored. Dangosant gydbwysedd a rheolaeth wrth ddringo dros deiars a thrwy dwneli yn ardal y goedwig. Maent yn datblygu medrau echddygol manwl ac yn dangos medrusrwydd wrth iddynt osod pegiau ar ddraenogod cardfwrdd i greu pigau.

Er bod llawer o blant yn newydd i'r lleoliad ac mae gan ychydig ohonynt wybodaeth flaenorol am yr iaith, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau yn Gymraeg. Maent yn deall y termau Cymraeg am rifau i bump a lliwiau syml. Maent yn ymuno'n dda â chaneuon a rhigymau fel rhan o arferion bob dydd ac yn ateb cwestiynau syml yn Gymraeg, er enghraifft pan ofynnir pwy sydd â bloc o liw penodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol â datblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, defnyddiant offerynnau cerddorol yn rheolaidd i arbrofi â sain a rhythm. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau personol a chymdeithasol defnyddiol. Er enghraifft, maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd ac yn gwrando ag ystyriaeth ar ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad, ac yn dyfalbarhau â thasgau pan fyddant yn wynebu anawsterau. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddiffyg cyfle, nid ydynt yn datblygu medrau datrys problemau digonol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer cadw plant yn ddiogel ac yn iach, ac maent yn rhoi'r rhain ar waith yn llwyddiannus. Mae eu trefniadau i ddiogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae trefniadau trylwyr ar gyfer casglu plant o'r ysgol yn ddiogel, gan gynnwys sicrhau bod plant yn gwisgo siacedi llachar ac maent yn dal dwylo i helpu sicrhau diogelwch. Mae'r lleoliad yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, ac mae ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant addas i gefnogi eu dealltwriaeth o weithdrefnau cymorth cyntaf ac amddiffyn plant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol ar gyfer yr holl blant. Er enghraifft, mae prydau'n iach ac mae dŵr yfed ar gael yn rhwydd i'r plant trwy gydol y sesiwn. Rhoddir digonedd o gyfleoedd gwerthfawr i blant chwarae'r tu allan yn yr awyr iach i ddatblygu eu medrau corfforol. Mae ymarferwyr yn annog plant i olchi eu dwylo cyn byrbrydau ac ar ôl defnyddio'r toiled; mae hyn yn datblygu dealltwriaeth plant o arferion hylendid personol effeithiol yn dda.

Mae gan ymarferwyr ar draws y lleoliad ymagwedd gynnes at roi gofal, ac maent yn rheoli rhyngweithio yn deg ac yn gyson. Maent yn cyfathrebu'n glir â phlant, yn eu canmol am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau yn frwdfrydig. O ganlyniad, mae plant yn hapus yn y lleoliad, ac yn hyderus i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol. Er enghraifft, maent yn arwain sesiwn adrodd stori ddifyr lle mae plant dwy flwydd oed yn dychmygu eu bod yn mynd ar helfa eirth ac yn ymuno â symudiadau, fel gwneud sŵn slwtsian â'u traed yn y mwd. Mae ymarferwyr yn atgyfnerthu iaith sefyllfaol yn effeithiol ac mae plant yn dangos eu dealltwriaeth trwy symudiadau corfforol; er enghraifft dangos sut byddent yn cerdded trwy afon, dros greigiau ac o dan bont.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn briodol, er enghraifft trwy ddefnyddio ychydig o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystod y sesiwn. Maent yn darparu posteri deniadol i gyfarch plant yn eu hiaith eu hunain, gan helpu creu ymdeimlad o berthyn ar gyfer pob un o'r plant yn y lleoliad. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddechrau dysgu am y byd amrywiol y maent yn byw ynddo.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n arloesol i greu adnoddau sy'n cyfoethogi dysgu plant trwy chwarae. Er enghraifft, mae ymarferwr yn creu coeden, wedi'i haddurno ag adar tegan a dail yr hydref, fel adnodd i blant ymarfer defnyddio eu synhwyrau a dysgu am y byd naturiol.

Mae ffocws gwerth chweil ar blant ag anghenion addysgol arbennig. Mae ymarferwyr ac arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gwblhau cynlluniau dysgu unigol cynhwysfawr. Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol, fel seicolegydd addysg yr awdurdod lleol, y tîm lleferydd ac iaith a'r ymwelydd iechyd, i ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn gwybod yn dda am alluoedd a diddordebau plant. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n herio plant ar lefel briodol, yn dal eu dychymyg ac yn sbarduno eu dysgu. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau datblygu eu medrau creadigol wrth gasglu dail a brigau i greu darn o waith celf yn ardal y goedwig fel rhan o'u testun ar 'yr hydref'. Mae ymarferwyr yn siarad yn rheolaidd â phlant am beth hoffent ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, maent yn gweithredu yn unol ag awgrymiadau plant i drefnu ymweliad â gorsaf dân ac yn defnyddio pibelli dŵr yr injan dân i chwistrellu dŵr. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw manwl i'r cynnydd a wna plant, a gwnânt weithgareddau dilynol ar lefel sy'n diwallu anghenion plant ac yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Er enghraifft, maent yn nodi pa mor dda y maent wedi paru'r nifer gywir o bigau i'r rhifau ar ddraenog ac yn sicrhau bod y gweithgaredd cyfrif nesaf yn adeiladu ar yr hyn maent yn gallu ei wneud eisoes.

Mae ymarferwyr yn gwneud asesiadau defnyddiol o'r cynnydd a wna plant ac yn crynhoi'r rhain yn asesiadau o gynnydd bob tymor. Maent yn cynnal cofnodion clir o'r medrau y mae plant wedi eu datblygu, ac yn defnyddio'r rhain yn dda i gynllunio gweithgareddau dilynol. Mae hyn yn helpu sicrhau bod plant yn adeiladu ar fedrau blaenorol ac yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Gwna ymarferwyr ddefnydd buddiol o'r wybodaeth hon trwy ei rhannu â rhieni mewn cyfarfod yn ystod tymor yr haf, a throsglwyddo eu hasesiadau terfynol i ysgolion y mae plant yn pontio iddynt.

Mae'r holl ymarferwyr yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol â phlant yn gyson. Mae hyn yn helpu sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn ymateb i unrhyw faterion yn ymwneud ag ymddygiad annerbyniol yn gadarn, ond gyda sensitifrwydd. Maent yn annog plant i ddyfalbarhau â thasgau y maent yn eu cael yn anodd ac i geisio dod o hyd i ffyrdd o oresgyn heriau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd i blant wella eu medrau datrys problemau a meddwl.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda er mwyn i blant ddatblygu a gwella eu medrau llythrennedd. Maent yn modelu darllen a mwynhad o lyfrau yn dda, gan annog plant i ymateb ac ymuno â chwedlau cyfarwydd yn ystod amser stori. Maent yn annog plant i archwilio llyfrau yn annibynnol ac yn darparu amrywiaeth dda o destunau i'r plant eu mwynhau. Mae ymarferwyr yn modelu medrau iaith da ac yn annog plant i wrando'n ofalus a siarad yn eglur. Maent yn darparu cyfleoedd da i blant archwilio creu marciau ag amrywiaeth o offer a chyfryngau, gan gynnwys deunyddiau naturiol, paent, papur a phensil. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i wella medrau plant mewn cyfrif ac ychydig o agweddau ar eu geirfa fathemategol trwy gydol y sesiwn. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio digon o gyfleoedd i blant ddatblygu ystod lawn o fedrau mathemategol, fel y rheiny mewn siâp a mesur.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant. Er enghraifft, datblygant synnwyr o ryfeddu trwy wylio lindys yn chwileru, yn troi'n loÿnnod byw a'u rhyddhau. Defnyddiant arferion dyddiol, fel amser byrbryd, fel cyfle i atgoffa plant ynglŷn â thacluso ar ôl eu hunain, a thrwy'r holl weithgareddau, annog plant i rannu adnoddau a chymryd eu tro.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo agweddau ar ddiwylliant Cymru yn briodol, er enghraifft trwy drefnu gweithgareddau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.  Fodd bynnag, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu dealltwriaeth plant o'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill fel rhan o ddysgu parhaus plant, yn annigonol.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adeiladau yn ddiogel a saff.  Er enghraifft, mae'n ofynnol i'r holl ymwelwyr lofnodi i gofrestru ac ymadael, a rheolir mynediad trwy'r brif fynedfa trwy system fynediad seiniwr.  Mae'r lleoliad yn defnyddio ei ofod yn dda i sicrhau'r amgylchedd gorau i blant chwarae a dysgu.  Mae systemau da ar gyfer gwiriadau cynnal a diogelwch rheolaidd ar gyfer amgylcheddau dan do ac awyr agored.  Mae arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg cywir yn cael eu cwblhau ar gyfer yr adeiladau, gweithgareddau ac ymweliadau.  Mae ymarferwyr yn ymgymryd ag arferion glanhau effeithiol ac fe gaiff ardaloedd chwarae eu cynnal yn dda.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn canolbwyntio ar y plentyn.  Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion plant, ac mae cyfleusterau golchi dwylo yn hygyrch.  Mae cynllun a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth plant, gan eu galluogi i archwilio eu hardal chwarae ac maent yn gwneud dewisiadau'n rhwydd ynglŷn â sut maent yn dysgu a chwarae.  Mae arweinwyr yn sicrhau bod llyfrau'n cael eu harddangos mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn yn annog plant i'w darllen.  Mae ardal ddynodedig i blant storio eu heitemau personol, sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o deganau sy'n briodol i oedran ac adnoddau o ansawdd da ar gyfer yr holl blant, sy'n apelio atynt ac yn annog datblygiad eu chwilfrydedd a'u dawn greadigol.  Mae digonedd o adnoddau naturiol, nwyddau cartref masnachol wedi'u hailgylchu a darnau rhydd i gynorthwyo plant i ymarfer defnyddio eu synhwyrau a datblygu chwarae dychmygol yn effeithiol.  Caiff pethau eu storio ar lefel isel, sy'n galluogi plant i gyrraedd eu teganau'n hawdd, ac mae dodrefn yn briodol ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygu.

Mae ymarferwyr yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored trwy gynnig ystod dda o adnoddau i ysgogi eu diddordebau.  Maent wedi dylunio'r iard yn dda i gynnig dewisiadau diddorol o weithgareddau i blant, fel plannu blodau neu addurno'r borderi'n ddeniadol â cherrig mân wedi eu peintio yn lliwiau'r enfys.

Mae ymarferwyr yn creu ryseitiau dychmygus ar gyfer y gegin fwd i alluogi plant i gael hwyl yn gwneud bwyd esgus, fel cawl brigau a lasagne dail, gan ddefnyddio adnoddau naturiol yn effeithiol.  Mae'r ardal chwarae yn y goedwig yn ofod eang sy'n cynnwys amrywiaeth briodol o gyfarpar ac adnoddau dringo i helpu plant i wella eu medrau cydbwyso a chydsymud tra'n bod yn fywiog yn yr awyr iach.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Yn dilyn newidiadau diweddar i rolau arwain, mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn datblygu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sydd wedi'i seilio ar ddarparu safonau uchel o ofal a dysgu ar gyfer plant a'r gymuned leol.  Mae arweinwyr yn rhannu'r weledigaeth hon yn dda gyda staff.  Mae hyn yn arwain at synnwyr cryf o waith tîm ymhlith ymarferwyr a synnwyr o ddiben cyffredin o ran darparu'r profiad gorau posibl i'r plant dan eu gofal.

Mae arweinwyr wedi rhoi prosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn cael ei redeg yn esmwyth. Mae system strwythuredig o gyfarfodydd yn sicrhau bod pob un o'r staff yn parhau'n wybodus am ddatblygiadau yn y lleoliad a'u bod yn cael cyfle i gyfrannu eu syniadau a'u barn. Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda'r pwyllgor rheoli i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau trwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae gan y pwyllgor ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella. Mae ymweliadau rheolaidd gan aelodau'r pwyllgor yn eu helpu i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am waith y lleoliad sy'n werthfawr wrth wneud penderfyniadau.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Ceir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau diogelwch yr holl blant ac ymarferwyr, ac mae arweinwyr yn adolygu'r rhain yn rheolaidd.

Mae arweinwyr wedi datblygu systemau effeithiol i lunio casgliadau am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol, cyfarfodydd rheolaidd a holiaduron i gasglu safbwyntiau rhieni ac ymarferwyr. Maent yn cymryd y canfyddiadau hyn o ddifri ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant yn dda i lunio barnau am ansawdd y rhan fwyaf o feysydd gwaith y lleoliad. Ceir cysylltiad agos rhwng y rhain a chamau gweithredu gwella'r lleoliad. Er enghraifft, nododd y lleoliad fod angen gwella medrau creu marciau plant, ac erbyn hyn, caiff plant gyfleoedd helaeth i archwilio hyn, ac maent yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o'i gysylltiad â chyfathrebu ysgrifenedig.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod digon o ymarferwyr â chymwysterau addas i ddiwallu anghenion plant, ac maent yn eu defnyddio'n dda i wneud y gorau o'u medrau. Mae gan yr holl ymarferwyr swydd-ddisgrifiadau cyfoes sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi rhoi systemau goruchwylio ac arfarnu buddiol ar waith, sy'n darparu cyfleoedd defnyddiol i ymarferwyr fyfyrio ar eu perfformiad a nodi meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol effeithiol i wella medrau staff. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys ymweliadau â darparwyr eraill i arsylwi arfer dda o ran sut maent yn trefnu eu darpariaeth a ariennir yn y blynyddoedd cynnar.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus i gynnal perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni ac maent yn eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant a'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad lawer o bartneriaethau buddiol gyda'r gymuned leol sy'n cefnogi dysgu plant yn dda. Er enghraifft, mae plant yn dod i wybod am 'bobl sy'n eu helpu' trwy ymweld â'r orsaf heddlu a'r orsaf dân leol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2019